## Cynnydd o ran Cyflawni'r Strategaeth Economi Gylchol, Mwy nag Ailgylchu

Mae ein strategaeth economi gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, yn amlinellu ein hymrwymiad i drosglwyddo i economi gylchol wrth gyflawni ein nod o ddod yn genedl ddiwastraff a sero net erbyn 2050. Cyhoeddwyd y strategaeth yn 2021, ar adeg ddigynsail oherwydd y pandemig Covid-19. Er gwaethaf y cyd-destun hwnnw, fel y dengys y papur tystiolaeth hwn, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod cyfraddau ailgylchu wedi parhau i gynyddu er gwaethaf yr heriau yn ystod y pandemig, bod y gwaith o ddatblygu'r seilwaith sylfaenol wedi parhau wrth i gyfleusterau ailddefnyddio ac atgyweirio gael eu cyflwyno – a thrwy hynny adeiladu ar y cynnydd parhaus mewn perthynas ag ailgylchu – a bod y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd wedi eu datblygu a'u rhoi ar waith. Mae gwaith hefyd wedi parhau ar y meysydd sy'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys ar ddarparu Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig ar gyfer pecynwaith a Chynllun Dychwelyd Ernes. Yn ogystal, i gydnabod y cynnydd yn ystod y cyfnod hwn a'r arweinyddiaeth wrth drosglwyddo i'r economi gylchol, dewiswyd Cymru i gynnal yr International Circular Economy Hotspot eleni.

## Targedau Economi Gylchol

O ran y targed o ailgylchu 70% o'r gwastraff o gartrefi, busnesau masnachol a busnesau diwydiannol erbyn 2025, mae'r data diweddaraf ym mhob maes fel a ganlyn:

- Gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdod Lleol 2022-23 – 65.7%[1]
- Gwastraff cartrefi 2022 – 56.7%[2]
- Gwastraff diwydiannol 2018 – 69%[3]
- Gwastraff masnachol 2018 – 64%[4]
- Gwastraff adeiladu a dymchwel 2019 – 93%[5]

O ran gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol, mae ffigurau 2022/23 yn dangos bod pedwar Awdurdod Lleol eisoes yn cyflawni targed 2024/25 o 70%, bod 13 Awdurdod Lleol wedi rhagori ar y targed lleiaf o 64%, a dim ond pump wedi methu â chyrraedd y targed.

Mae amrywiaeth o gamau yn cael eu cymryd i gynyddu cyfraddau ailgylchu ymhellach a gweithio tuag at y targed. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r model llwyddiannus o gymorth i Awdurdodau Lleol i'w helpu i wella eu perfformiad, gan gynnwys y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, cyllid cyfalaf wedi'i dargedu, cyngor ar wella perfformiad a chyflawni'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus Bydd Wych. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd[6] sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithleoedd gadw eu deunyddiau ailgylchadwy

[1] https://www.llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-2022-i-mawrth-2023
[2] https://www.gov.uk/government/statistics/uk-waste-data/uk-statistics-on-waste
[3] https://cdn.naturalresources.wales/media/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf
[4] https://cdn.naturalresources.wales/media/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf
[5] Cyfoeth Naturiol Cymru / Arolwg gwastraff adeiladu a dymchwel 2019
[6] Ailgylchu yn y Gweithle | LLYW.CYMRU

allweddol ar wahân ac i'r rheiny gael eu casglu ar wahân, er mwyn gwella maint ac ansawdd yr ailgylchu o adeiladau annomestig. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno darpariaeth cyngor a chymorth i fusnesau gan Busnes Cymru.

Ar gyfer y gostyngiad cyffredinol o 26% yn y targed gwastraff, mae amcangyfrifon data presennol yn dangos mai cyfanswm y gwastraff yw 7,552,000 o dunelli o gymharu â llinell sylfaen 2006-7, sef 10,553,261 tunnell, sy'n ostyngiad o 28.4%. Mae cynnydd cadarnhaol hefyd o ran yr amcan o ddim gwastraff i safleoedd tirlenwi a tharged 2024-25 o lai na 5% o'r gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Y cyfraddau tirlenwi diweddaraf a gyhoeddwyd yw:

- Gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol – 1.6% yn 2022-23[7]
- Gwastraff diwydiannol a masnachol - 11% yn 2018[8]
- Gwastraff adeiladu a dymchwel – 6% yn 2019[9]

Ar gyfer ein gwastraff trefol, mae'n golygu, ers datganoli, fod y gyfradd tirlenwi wedi gostwng o 95% yn 1998 i 1.6%. Gyda'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle bellach ar waith, bydd yn sicrhau ymhellach bod deunydd ailgylchadwy yn cael ei gipio'n well i'w ail-brosesu, gan atal y deunydd hwnnw rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Yn ogystal, fel rhan o'r diwygiadau ailgylchu yn y gweithle, mae'n cynnwys gwaharddiad ar anfon gwastraff pren i safleoedd tirlenwi a fydd yn cyfrannu ymhellach at gyflawni yn erbyn y targed hwn.

O ran ein targed i leihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi, mae sawl ymyriad ar waith i fynd i'r afael â gwastraff bwyd yng Nghymru, gan gynnwys:

- Casgliadau ar wahân ar gyfer gwastraff bwyd o gartrefi wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus gan bob awdurdod lleol yng Nghymru;
- Mae'n ofynnol bellach i weithleoedd wahanu gwastraff bwyd i'w gasglu fel rhan o'r diwygiadau Ailgylchu yn y Gweithle;
- Ariannu FareShare Cymru i ehangu ailddosbarthu bwyd dros ben i sefydliadau cymunedol;
- Clystyrau Bwyd Cynaliadwyedd yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd adnoddau ac atal gwastraff mewn busnesau bwyd a diod;
- Ymgyrch Gweithredu ar Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys awgrymiadau ar leihau gwastraff bwyd a gwneud dewisiadau bwyd cynaliadwy;
- Roedd ymgyrch Bydd Wych[10] a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar atal gwastraff bwyd a chyfraniad gan Lywodraeth Cymru at ymgyrch Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff WRAP; a,
- Chefnogaeth Llywodraeth Cymru i gytundeb gwirfoddol Courtauld 2030 sy'n dod â manwerthwyr mawr ynghyd i helpu defnyddwyr i leihau gwastraff bwyd.

Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda WRAP ar hyn o bryd i ddatblygu'r fethodoleg i ddadansoddi ac amcangyfrif lefelau gwastraff bwyd a'u cymharu â llinell sylfaen 2007.

---

[7] https://www.llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-2022-i-mawrth-2023

[8] https://cdn.naturalresources.wales/media/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf

[9] Cyfoeth Naturiol Cymru / Arolwg gwastraff adeiladu a dymchwel 2019

[10] Arbed arian a chreu pŵer i Gymru | Cymru yn Ailgylchu

**Trosolwg o Gamau i Gyflawni Mwy nag Ailgylchu**

O ran yr Economi, arloesi a datblygu'r farchnad, yr amcan yw cefnogi a sbarduno arloesedd, datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer deunyddiau crai eilaidd a chynyddu cydnerthedd y gadwyn gyflenwi yng Nghymru, gan gydnabod bod datgarboneiddio'r gadwyn yn golygu bod yr economi gyfan yn dod yn fwy cylchol.

O fewn polisïau craidd Llywodraeth Cymru, mae *Mwy nag Ailgylchu* a'r rheidrwydd i symud i economi gylchol a'r cyfleoedd sylweddol i Gymru yn sgil gwneud hynny wedi'u hymgorffori ar draws ein strategaethau a'n cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys *Cymru'n arloesi: creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach, Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu* Llywodraeth Cymru a datblygu'r *Cynllun Sgiliau Sero Net*.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein polisïau, mae cyllid wedi'i roi ar waith drwy'r Gronfa Economi Gylchol ar gyfer Busnes i helpu busnesau i addasu eu prosesau i ddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu a gwella effeithlonrwydd adnoddau, ac mae WRAP yn darparu cymorth arbenigol. Yn 2023-24, derbyniodd 19 o fusnesau ledled Cymru gyllid gan y Gronfa Economi Gylchol ar gyfer Busnes. Yn ogystal, mae WRAP wedi gweithio gyda busnesau yng Nghymru ar dreialon cadwyni cyflenwi gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ym maes gweithgynhyrchu.

Mae'r rhaglen Cymunedau Arloesi Economi Gylchol (CEIC)[11] a'r rhaglen Ymchwil Gymhwysol ar gyfer Atebion Cylchol[12] a gynhelir gan Brifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol Abertawe hefyd yn cynnig cyllid i BBaChau yng Nghymru arloesi a mabwysiadu atebion busnes cylchol.

Mae gan gaffael sector cyhoeddus cynaliadwy rôl hanfodol o ran cefnogi datblygiad y farchnad ochr yn ochr â gwella'r canlyniadau amgylcheddol sy'n cael eu cyflawni. Wrth weithredu'r ymrwymiadau yn *Mwy nag Ailgylchu*, datblygwyd canllawiau ar yr Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy, ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar, adeiladu, dodrefn, tecstilau a chostau oes. Er mwyn asesu pa mor dda mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn perfformio o ran caffael cynaliadwy, datblygwyd yr Adolygiad Aeddfedrwydd Caffael Cynaliadwy sy'n darparu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. Yn ogystal, mae cyfleoedd fel Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)[13] Economi Gylchol yn y Sector Cyhoeddus, wedi rhoi cyfle i fusnesau yng Nghymru gynyddu atebion economi gylchol arloesol ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae'r newid i economi gylchol hefyd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer arloesi digidol, fel y dangosir drwy gyflwyno'r treial Cynllun Dychwelyd Ernes Digidol tref lawn cyntaf yn y byd yn Aberhonddu. Profodd y treial Sganio|Ailgylchu|Gwobr dechnoleg newydd sy'n caniatáu i ddeiliaid tai sganio cynwysyddion diodydd, gyda'r treial yn darparu lefelau uchel o ymgysylltu, a 18,794 o wobrau yn cael eu hawlio.

[11] Economi gylchol | DU (ceicwales.org.uk)
[12] Ymchwil Gymhwysol ar gyfer Atebion Cylchol | Busnes Cymru (llyw.cymru)
[13] Economi Gylchol yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru - Canolfan Ragoriaeth SBRI (sbriwales.co.uk)

Gan gydnabod y bydd angen y sgiliau i drosglwyddo i economi gylchol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd, mae ymgynghoriad y *Cynllun Sgiliau Sero Net* yn cynnwys sgiliau economi gylchol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ofynnol yn y sector gwastraff ac adnoddau, yn ogystal ag ar draws pob sector gan gynnwys gweithgynhyrchu, ynni a seilwaith, amaethyddiaeth a'r sector cyhoeddus - gyda'r newid i economi gylchol yn elfen hanfodol o ddatgarboneiddio ym mhob un.

Wrth gymryd camau i gefnogi busnesau i bontio, mae Busnes Cymru wedi prif ffrydio hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor i BBaChau i'w helpu i fabwysiadu arferion economi gylchol fel cynyddu effeithlonrwydd adnoddau. Fel y cydnabuwyd gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, mae cynyddu effeithlonrwydd adnoddau yn elfen hanfodol o'r gweithredu ar newid hinsawdd sydd ei angen y degawd hwn. Ynghyd â'r Addewid Twf Gwyrdd sy'n canolbwyntio'n gryf ar effeithlonrwydd adnoddau ac egwyddorion economi gylchol, mae'r cymorth hwn yn helpu busnesau i atal gwastraff a chymhwyso modelau busnes mwy cylchol. Mae Clwstwr Busnes Cynaliadwyedd ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a diod, sy'n cynnwys gweithgor gwastraff bwyd mewn cydweithrediad ag AMRC Cymru, ochr yn ochr â chyflwyno hyfforddiant 'Sgiliau Gwyrdd' i weithgynhyrchwyr bwyd a diod drwy'r 'Cwrs Hyfforddi Cynaliadwyedd' a 'Gweithdai Datgarboneiddio', hefyd ar waith. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn rhoi cyngor ar elfen gylchol ar ffermydd ar gyfer y sector ffermio.

Ein nod wrth adeiladu ar record ailgylchu Cymru yw parhau â’r llwyddiant a'r cynnydd sylweddol hyd yma drwy barhau i ysgogi gwelliannau o ran ailgylchu gwastraff o gartrefi, masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel a sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran ailgylchu yn fyd-eang. Felly, mae datblygu a gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn gam sylweddol arall ymlaen a fydd yn lleihau ymhellach faint o wastraff a anfonir i losgi ac i safleoedd tirlenwi, gan gipio mwy o ddeunyddiau o ansawdd uchel sydd wedi'u gwahanu yn y tarddle y gellir wedyn eu bwydo'n ôl i economi Cymru. Bydd y ffaith bod y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yn cael eu datblygu yn sbarduno cynnydd ymhellach ac yn darparu manteision ehangach fel mynd i'r afael â sbwriel.

Mae ein gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol, sydd wedi bod mor ganolog i Gymru yn dod yn genedl ailgylchu, hefyd yn parhau gyda pharhad yr ystod o gymorth ochr yn ochr â chydweithio ar y diwygiadau sy'n cael eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys diweddaru arferion gorau'r Glasbrint[14] i gefnogi Awdurdodau Lleol i ailgylchu mwy na 70%.

Elfen allweddol o'r strategaeth economi gylchol yw'r ymrwymiad i atgyweirio ac ailddefnyddio, gan gydnabod ei bod yn hanfodol gwneud *Mwy nag Ailgylchu* er mwyn dod yn genedl ddiwastraff a sero net. Wrth gyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym wedi cymryd nifer o gamau i dyfu ac ehangu ailddefnyddio a buddsoddi mewn cyfleusterau allweddol.

[14] Trosolwg | Glasbrint Casgliadau (collectionsblueprint.wales)

Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Chaffi Trwsio Cymru i ehangu'r rhwydwaith o gaffis trwsio i 137 o gymunedau ledled Cymru. Mae dros 17,000 o eitemau bellach wedi'u dargyfeirio o wastraff drwy gael eu hatgyweirio. Mae buddsoddiad yn Benthyg Cymru hefyd wedi cefnogi ehangu eu rhwydwaith o 'Lyfrgelloedd Pethau' i 20 safle ledled Cymru, ac mae hyn wedi golygu eu bod wedi prydlesu eu heitemau 12,000 o weithiau.

Rydym hefyd wedi buddsoddi dros £4 miliwn mewn prosiectau atgyweirio ac ailddefnyddio ledled Cymru drwy'r Gronfa Economi Gylchol. Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector, mae hyn wedi cefnogi creu dros 50 o hybiau. Mae hefyd yn golygu bod gan 18 o'n 22 awdurdod lleol o leiaf un cyfleuster ailddefnyddio bellach mewn Canolfan Ailgylchu, ac rydym yn gweithio gyda'r pedwar sy'n weddill i sicrhau darpariaeth lawn. Rydym hefyd yn ariannu WRAP Cymru i ddatblygu canllawiau ailddefnyddio ymarferol ar gyfer awdurdodau lleol, gan gynnwys arferion da o bob cwr o Gymru.

Wrth i'r seilwaith ehangu, rydym hefyd yn codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cyhoeddus i gefnogi newid ymddygiad, er enghraifft, drwy hyb digidol *Gweithredu ar Newid Hinsawdd*[15] sy'n darparu cyngor ac yn cyfeirio dinasyddion yng Nghymru at wybodaeth am ddewisiadau cynaliadwy.

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd i weithredu *Mwy nag Ailgylchu* hefyd yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio deddfwriaethol, gan ddefnyddio deddfwriaeth fel sbardun allweddol i gefnogi cynnydd. Yn ogystal â'r deddfau newydd i weithredu'r diwygiadau Ailgylchu yn y Gweithle y cyfeiriwyd atynt eisoes, daeth cam cyntaf y gwaharddiadau ar blastigau untro i rym ym mis Hydref 2023 o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

Mae'r rhaglen o ddeddfwriaeth i roi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith ar waith eisoes wedi dechrau, gyda hynt y ddeddfwriaeth i gipio data allweddol wrth baratoi ar gyfer y cynllun. Mae'r hysbysiad o'r cynllun hefyd wedi'i gyflwyno i Sefydliad Masnach y Byd cyn cyflwyno'r prif offeryn statudol i weithredu'r cynllun yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd y diwygiadau'n golygu y bydd y busnesau hynny sy'n gosod nwyddau wedi'u pecynnu ar farchnad y DU neu'n eu mewnforio yn dod yn gyfrifol am gostau casglu, gwaredu ac ailgylchu'r pecynwaith pan fydd yn cyrraedd diwedd ei oes fwriedig. Mae'r penderfyniad ar y cyd gan y pedair llywodraeth i ohirio'r rhwymedigaethau ar gyfer talu am becynwaith rhwng mis Hydref 2024 a mis Hydref 2025 wedi galluogi gwaith ychwanegol gyda busnesau, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach i fireinio'r cynllun ymhellach. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd yn cyflawni'r amcanion yn effeithiol ac yn gosod y sector ar lwybr clir tuag at ddatgarboneiddio.

Er bod y broses o gyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd hefyd wedi'i ohirio tan fis Hydref 2027, mae datblygiad y ddeddfwriaeth ar y gweill ac mae ein datganiad polisi ar y cyd diweddar yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed gan y pedair llywodraeth ar ystod o fesurau ynghylch y gallu i

[15] Gweithredu ar Hinsawdd Cymru (llyw.cymru)

ryngweithredu. Mae'r mater sy'n weddill ac sy'n ymwneud â dull y DU o ymdrin â'r Ddeddf Marchnad Fewnol yn cael sylw yn y datganiad ysgrifenedig, ond ein bwriad o hyd yw gweithredu Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru sy'n cynnwys gwydr. Cafodd hyn ei gymeradwyo'n llawn gan yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cyd â Llywodraeth y DU – a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 – ac mae'n arbennig o bwysig yng Nghymru er mwyn i'r cynllun lwyddo yn erbyn ein lefel ailgylchu sylfaenol.

Mae deddfwriaeth hefyd yn cael ei datblygu i gyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol i olrhain symudiad a chyrchfan gwastraff. Bydd hyn yn darparu ffordd gynhwysfawr o olrhain yr hyn sy'n digwydd i wastraff a gynhyrchir yn y DU a fydd, yn ei dro, yn helpu'r broses rheoleiddio a chydymffurfio â'r ddyletswydd gofal am wastraff ac yn helpu i fynd i'r afael â throseddau gwastraff.

Ar 30 Hydref 2023, daeth cam cyntaf y gwaharddiadau i rym o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023. Roedd y rhain yn cynnwys gwaharddiadau ar gyflenwadau:

- Platiau plastig untro – mae hyn yn cynnwys platiau papur sydd ag arwyneb plastig wedi'i lamineiddio
- Cytleri plastig untro – er enghraifft ffyrc, llwyau, cyllyll
- Troyddion diodydd plastig untro
- Cwpanau sydd wedi'u gwneud o bolystyren ehangedig neu bolystyren allwthiedig ewynnog.
- Cynwysyddion bwyd tecawê sydd wedi'u gwneud o bolystyren ehangedig neu bolystyren allwthiedig ewynnog.
- Ffyn balŵn plastig untro
- Ffyn cotwm plastig untro
- Gwellt yfed plastig untro – gydag esemptiadau i bobl sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol.

Daeth rheoliadau sy'n cyflwyno sancsiynau sifil ar gyfer y gwaharddiadau i rym ar 1 Rhagfyr 2023 ac, ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar y camau nesaf o waharddiadau, gyda'r nod o gyflwyno Cam 2 erbyn gwanwyn 2026. Bydd hyn yn cynnwys gwaharddiadau ar y canlynol:

- Bagiau plastig untro – gydag esemptiadau, gan gynnwys bagiau ar gyfer pysgod, cig neu ddofednod amrwd a bwyd heb ei becynnu
- Caeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê
- Cynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy.

Yn dilyn ymgynghoriad pedair gwlad diweddar a ddaeth i ben ar 25 Tachwedd 2023, rydym hefyd yn blaenoriaethu gwaharddiadau ar gyfer cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig. Cyhoeddwyd Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad a Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig ar 22 Ebrill 2024. Amlinellodd hyn y camau nesaf a chadarnhawyd y byddai cyfnod pontio o 18 mis ledled y DU i ganiatáu i fusnesau drosglwyddo i gadachau di-blastig a lleihau gwastraff. Tynnodd y Datganiad sylw hefyd at ein cynlluniau i gyflwyno gwaharddiadau ar fêps untro. Ar hyn o bryd, mae

swyddogion yn cwblhau asesiadau effaith ac yn drafftio'r rheoliadau ar gyfer y gwaharddiadau hyn.

**Parodrwydd y sector gwastraff a buddsoddiad mewn seilwaith**

Mae ein dull gweithredu wedi canolbwyntio ar barhau ac adeiladu ar y gwaith partneriaeth gyda'r sector gwastraff sydd wedi bod mor drawsnewidiol ers dechrau datganoli. Mae ein hymgysylltiad rheolaidd yn cynnwys cyfarfodydd gyda Chymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (prif gorff masnach y sector gwastraff), y digwyddiadau a drefnir yng Nghymru gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM), yn ogystal ag ymgysylltiad yn ystod y camau allweddol wrth ddatblygu ein strategaeth gyffredinol a pholisïau ategol. Er enghraifft, mae ymgysylltiad â'r sector gwastraff ar y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd wedi bod yn helaeth – gan fod y bwriad i gyflwyno gofynion ar gyfer gwahanu a chasglu deunyddiau ailgylchadwy allweddol ar wahân wedi'i nodi fel polisi allweddol yn yr ymgynghoriad ar strategaeth wastraff 2010, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* ac yna wedi'i gynnwys ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn 2012-13, yr holl ffordd drwy'r ymgynghoriadau yn 2019 a 2022, ac mewn ymgysylltiad parhaus â pharodrwydd ac yna gweithredu hyd heddiw.

Mae buddsoddi mewn seilwaith yn allweddol i'r newid i economi gylchol, ond mae hefyd yn hanfodol o ran datgarboneiddio ac o bwys cynyddol i'n cydnerthedd economaidd a'n cystadleurwydd mewn economi ddatgarboneiddio fyd-eang. Mae ein dull o fuddsoddi yn seilwaith y sector cyhoeddus wedi ehangu ac adeiladu ar y dull gweithredu sydd wedi llwyddo i drawsnewid Cymru i fod yn genedl ailgylchu. Mae hyn wedi gweld Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £1 biliwn ers datganoli, gydag elfennau mwy newydd fel y gefnogaeth i Awdurdodau Lleol drosglwyddo i ddefnyddio Cerbydau Allyriadau Isel Iawn i gasglu ailgylchu a gwastraff yn cael eu hychwanegu at y gefnogaeth er mwyn gweithredu'r dull Glasbrint.

Ochr yn ochr â pharhau i fuddsoddi yn seilwaith y sector cyhoeddus, mae'r newid i economi gylchol hefyd yn mynnu bod y seilwaith economaidd yn manteisio ar y cyfleoedd sylweddol a chael budd o ddulliau heb eu hail Cymru o gasglu deunydd wedi'i ailgylchu. Gan ategu'r buddsoddiad drwy'r Gronfa Economi Gylchol ar gyfer Busnes a nodir uchod, sydd wedi bod o fudd i nifer o fusnesau yng Nghymru, rydym hefyd yn cefnogi mewnfuddsoddiad mewn meysydd allweddol, er enghraifft, ffatri ailgylchu plastig newydd Jayplas yn Abertawe, sy'n ymdrin â 100,000 tunnell o ddeunydd ailgylchu y flwyddyn. Mae ein gweledigaeth glir, ein polisïau cyson a'n perfformiad ailgylchu heb ei ail yn gwneud Cymru'n gyrchfan allweddol ar gyfer buddsoddi mewn arloesedd economi gylchol.